Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddMCD@cynulliad.cymru

14 Tachwedd 2018

Annwyl Mick

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 24 Hydref ynghylch adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) ("y Bil Ffioedd").

Roedd eich llythyr wedi tynnu sylw penodol at argymhelliad 7 a'r defnydd o'r gair "priodol" yng nghyd-destun ymrwymo i ymgynghori, ond roedd hefyd wedi rhoi sylw i nifer o gasgliadau ac argymhellion eraill sydd wedi'u nodi yn eich adroddiad. Byddaf yn ymateb i'r rhain yn eu tro.

Cymhwysedd deddfwriaethol a chydsyniad y Goron

Argymhelliad 2: *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr wybodaeth am gymhwysedd deddfwriaethol yn ei Memoranda Esboniadol gynnwys digon o fanylion i sicrhau tryloywder ac i alluogi Biliau i fod yn destun proses graffu effeithiol.*

Mewn perthynas â'r mater a godwyd gennych am yr adran yn y Memorandwm Esboniadol ar gymhwysedd deddfwriaethol, gallaf gadarnhau bod safbwynt mwy manwl wedi'i amlinellu ym Memorandwm Esboniadol y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), gan mai hwnnw oedd y Bil cyntaf i gael ei gyflwyno o dan y setliad newydd o gymhwysedd deddfwriaethol sy'n seiliedig ar gadw pwerau. Yn sgil y newid i fodel cadw pwerau, a'r ffaith nad oes bellach angen cyfeirio at y testunau y rhoddir pwerau iddynt, mae'r adran am gymhwysedd deddfwriaethol mewn Memoranda Esboniadol yn y dyfodol yn fwy tebygol o gydymffurfio â'r datganiad ym Memorandwm Esboniadol y Bil Ffioedd.

Roedd paragraffau 33 a 34 o'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at gael cydsyniad gan Ei Mawrhydi neu Ddug Cernyw pan fydd darpariaeth Bil yn ei gwneud yn ofynnol. Gallaf gadarnhau ein bod yn dilyn gweithdrefnau y cytunwyd arnynt â chynghorwyr y Frenhines. Pan fyddaf yn anfon Bil at y Llywydd er mwyn cael ei phenderfyniad, mae fy llythyr yn nodi y gallai fod angen cydsyniad y Frenhines neu'r Tywysog.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Asesiadau o'r Effaith

Argymhelliad 3: *Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 fel cyfle i roi mwy o fanylion i Aelodau'r Cynulliad a'r gynulleidfa ehangach am borth asesu effaith Llywodraeth Cymru ac, yn enwedig, ei arwyddocâd i'r Bil hwn.*

Wrth ddatblygu'r Bil Ffioedd, cafodd fersiwn gynharach o ddull newydd Llywodraeth Cymru o integreiddio asesiadau o effaith polisïau ei threialu. Dull a ddatblygwyd mewn ymateb i adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, sef *Reducing complexity and adding value: A strategic approach to impact assessment in the Welsh Government*. Mae'n bosibl y bydd yr aelodau'n ymwybodol o'r gwaith hwnnw yn sgil ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei *Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth* a'r dadl sy'n cyd-fynd â hwnnw ar 24 Ionawr eleni.

Prif nod y dull newydd yw dwyn ynghyd gwahanol ddyletswyddau asesu'r effaith, gan ddefnyddio fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gyda'r bwriad o symleiddio a safoni'r gwahanol fathau o asesiadau i greu dull mwy holistaidd a hygyrch o asesu'r effaith.

Rydym wedi bod wrthi'n mireinio'r dull gan roi ystyriaeth i brofiad cynnar, ac wrth wneud hynny yr enw a roddwyd arno ar y pryd oedd y porth asesu effaith. Mae'r dull wedi datblygu ymhellach ers i'r Bil Ffioedd gael ei gyflwyno, a'r enw arno bellach yw asesiad effaith integredig.

Hefyd, ychydig cyn cyflwyno'r Bil Ffioedd, cafodd Rheolau Sefydlog eu newid, yn unol â gofynion Deddf Cymru 2017, fel eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil ddarparu asesiad o'r effaith ar gyfiawnder, h.y. datganiad ysgrifenedig ar effaith bosibl Bil ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. Mae Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol gynnwys y datganiad hwnnw yn y Memorandwm Esboniadol (ME) ar gyfer pob Bil. Ers i'r gofyniad newydd ddod i rym, mae gwahanol ddulliau wedi'u treialu ar gyfer cynnwys asesiad o'r effaith ar gyfiawnder mewn Bil, ac ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth ategol. Er bod yr asesiad o'r effaith ar gyfiawnder sy'n cael ei gynnwys mewn ME yn bodloni gofyniad y Rheolau Sefydlog, mae gan unrhyw wybodaeth ategol rym i gefnogi'r asesiad ac yn mynd ochr yn ochr â'r asesiad.

Bydd y llywodraeth yn ceisio sicrhau bod ei Memoranda Esboniadol ar gyfer Biliau yn y dyfodol yn glir am y modd y maent yn bodloni gofynion y Rheolau Sefydlog, gan gynnwys yr asesiad o'r effaith ar gyfiawnder.

Argymhelliad 4: *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei Memoranda Esboniadol yn cynnwys linc uniongyrchol at yr holl ddeunydd esboniadol sydd ar gael o ran y Bil perthnasol, gan gynnwys y ddogfen porth asesu effaith (os bwriedir i'r dull hwn o asesu effaith barhau).*

Fel rhan o ddatblygu system newydd yr asesiad effaith integredig, mae'r llywodraeth wedi datblygu templed o grynodeb o'r asesiad effaith. Bydd crynodebau o ganlyniadau'r asesiad effaith integredig mewn perthynas â Biliau'r llywodraeth a gynhyrchwyd gan ddefnyddio'r templed ar gael i'r cyhoedd ar wefan Llywodraeth Cymru pan fydd y Bil yn cael ei gyflwyno. Ond bydd y pwyllgor yn dymuno nodi na fydd gan bob Bil sydd ar y gweill grynodebau o asesiad effaith integredig, gan fod gwaith eisoes wedi'i wneud ar asesu effaith rhai ohonynt pan gafodd y dull newydd ei gyflwyno.

Rwy'n cytuno â safbwynt y pwyllgor y dylid sicrhau ei bod yn haws dod o hyd i gyfreithiau Cymru a'r deunydd esboniadol cysylltiedig, gan gynnwys mewn perthynas ag asesiadau o'r

effaith. Er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gyfreithiau a helpu'r broses graffu, bydd y llywodraeth yn ceisio sicrhau, os bydd crynodeb o'r asesiad effaith integredig ar gael ar gyfer Bil, bod dolen gyswllt uniongyrchol at hwnnw'n cael ei chynnwys ym Memoranda Esboniadol Biliau.

Materion eraill

Argymhelliad 7. *Dylai'r Gweinidog ailystyried y defnydd o'r gair "priodol" wrth ymrwymo i ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth a gaiff ei llunio yn sgil y Bil.*

Roedd eich llythyr wedi tynnu fy sylw at y defnydd o'r gair "priodol" mewn Memoranda Esboniadol a Datganiadau o Fwriad y Polisi yng nghyd-destun ymrwymo i ymgynghori.

Byddwch wedi nodi bod y llywodraeth yn mabwysiadu iaith safonol ym mharagraffau rhagarweiniol adran 5 o ME, "Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth". Mae paragraff 5.2 yn datgan: *"Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli."*

Bwriedir i gynnwys paragraff 5.2 fod yn rhagarweiniol, gan fod yr adran ei hunan yn crynhoi'r holl bwerau yn y Bil, ac yn rhoi eglurhad am eu priodoldeb a rheswm am y weithdrefn berthnasol yr awgrymir ei defnyddio ar gyfer pob un. Bwriedir i'r defnydd o'r gair "priodol" yng nghyd -destun paragraff 5.2 bennu safbwynt cyffredinol y llywodraeth mewn perthynas ag ymgynghori ar yr is-ddeddfwriaeth. Yn y mwyafrif o achosion, byddem yn ymgynghori ar fwriad arfaethedig y polisi neu ar ddrafftiau o is-ddeddfwriaeth, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau pan na fydd yn gymesur i gynnal ymgynghoriad ffurfiol neu fod rhesymau anorchfygol dros beidio ag ymgynghori. Er enghraifft, os bydd yr is-ddeddfwriaeth yn achosi i ffi statudol gynyddu drwy fformiwla sefydlog, neu os bydd angen rhoi is-ddeddfwriaeth mewn grym ar frys, ac mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud hynny ac nad ydynt o dan ddyletswydd i ymgynghori.

Rwy hefyd yn nodi paragraff 66 o adroddiad y pwyllgor sy'n datgan, *"o'r cychwyn cyntaf, mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn glir am ei chynlluniau ar gyfer ymgynghori"*. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio sicrhau bod cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl yn cael ei darparu pan fydd Bil yn cael ei gyflwyno neu yn ystod proses graffu Bil, yn adran 5 o'r ME; wrth gyhoeddi Datganiad o Fwriad y Polisi; neu wrth gyhoeddi rheoliadau drafft. Fodd bynnag, ni fydd bob amser yn bosibl nac yn ymarferol i bennu cynlluniau ar gyfer ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth adeg cyflwyno Bil.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol, Arweinydd y Tŷ, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gweinidog Tai ac Adfywio.

Yn gywir

CARWYN JONES